Y CYNGOR

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13.25 ar 17 CHWEFROR 2017, ym MedRus 1, Penbryn.

Yn bresennol: Syr Emyr Jones Parry, Canghellor (Cadeirydd, ar wahân i gofnod 62.1); Mrs Elizabeth France, Dirprwy Ganghellor (Cadeirydd, ar gyfer cofnod 62.1); Ms Gwerfyl Pierce Jones, Dirprwy Ganghellor; Dr Timothy Brain, Trysorydd; Yr Athro John Grattan, Is-Ganghellor Dros dro; Ms Rebecca Davies, Dirprwy Is-Ganghellor (Prif Swyddog Gweithredu); Dr Rhodri Llwyd Morgan, Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol)(o gofnod 60); Yr Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil); Mr George Ashworth; Ms Anne Davies; Mr Keith Evans (ar wahân i gofnod 60); Mr Richard John; Mr Ian MacEachern; Dr Emyr Roberts; Dr Hazel Davey; Dr Jenny Mathers; Ms Jackie Sayce; Mr Rhun Dafydd, Llywydd UMCA; a Ms Lauren Marks, Llywydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth.

Yn gweinyddu: Mr Daniel Benham, Y Cyfarwyddwr Cyllid (o gofnod 57); Mrs Kim Broom, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mrs Lucy Hodson, Cyfarwyddwr Cynllunio (o gofnod 57); Mrs Esther Prytherch, Pennaeth y Swyddfa Gyfathrebu; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; Yr Athro Elizabeth Treasure, Darpar Is-Ganghellor; Dr David Blaney, Prif Weithredwr CCAUC; a Bethan Owen, Cyfarwyddwr Ymgysylltiad Sefydliadol y Cyngor Cyllido.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Ms Susan Chambers, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol; Mrs Janet Davies; Yr Athro Neil Glasser; a'r Dr Glyn Rowlands, Dirprwy Ganghellor.

50. MATERION PERSONOL A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Cydymdeimlad

   Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw Rhiannon Hughes, cyn aelod o staff Gwasanaethau Gwybodaeth.

2. Croeso

   Rhoddwyd croeso cynnes i'r Athro Elizabeth Treasure, darpar Is-Ganghellor, a oedd yn bresennol yn ei chyfarfod cyntaf o'r corff llywodraethu. Cafodd Prif Weithredwr CCAUC a Chyfarwyddwr Ymgysylltiad Sefydliadol y Cyngor Cyllido hefyd eu croesawu i gyfarfod y Cyngor. Er mai fel sylwedyddion yr oeddent ill tri yn bresennol yn y cyfarfod, cawsant eu hannog i gyfrannu i unrhyw drafodaeth fel yr oedd yn briodol.

51. GWRTHDARO BUDDIANNAU

1. Nododd Keith Evans fod ganddo fudd yn yr adroddiad ar y Safonau Iaith am ei fod yn gweithio gyda Chomisiynydd y Gymraeg, a dewisodd ymesgusodi o'r drafodaeth honno.

2. Byddai ailbenodi'r Dirprwy Ganghellor Gwerfyl Pierce Jones, a'r Trysorydd, Dr Timothy Brain yn fater a fyddai'n cael ei ystyried yn y cyfarfod. Ni fyddai'n rhaid i'r naill na'r llall ymesgusodi o'r rhannau hynny o'r cyfarfod ar y ddealltwriaeth na fyddent yn cyfrannu at y trafodaethau penodol hynny.

52. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Tachwedd 2016 (COU1617-059).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

53. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU1617-060).

NODWYD

Y diweddariad a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

54. GOHEBIAETH

NODWYD

1. Llythyr Interim Adolygu Risg Sefydliadol

   Ar 02 Chwefror 2017, roedd yr Is-Ganghellor Dros dro wedi derbyn llythyr oddi wrth CCAUC yn dilyn Adolygiad Risg Sefydliadol interim. Byddai hyn yn cael ei ystyried gan y Cyngor yn ystod eitem ar wahân ar yr agenda.

2. 'Un Diwrnod Hebom' / Brexit

   1. Roedd y Canghellor wedi derbyn e-bost gan Eidalwr, sy'n fyfyriwr hŷn yn y drydedd flwyddyn, a oedd yn trefnu digwyddiad yn Aberystwyth yn rhan o ddiwrnod cenedlaethol o weithredu ar 20 Chwefror 2017, o'r enw 'One Day Without Us'. Nod y diwrnod gweithredu oedd tynnu sylw at gyfraniad mewnfudwyr, ymfudwyr a ffoaduriaid i gymunedau ac i'r gymdeithas ehangach.

   2. Roedd y myfyriwr wedi cysylltu hefyd â'r Is-Ganghellor Dros Dro ac wedi cyfarfod â Phennaeth Cyfathrebu, ac roedd y Brifysgol yn rhoi cefnogaeth i'r digwyddiad a fyddai'n cael ei gynnal ar y piazza o flaen Canolfan y Celfyddydau.

   3. Dywedwyd wrth yr aelodau fod CCAUC wedi gwneud dadansoddiad o amrywiol agweddau ac elfennau bywyd y tu allan i'r UE i'r sector yng ngoleuni'r bleidlais i adael yr UE. Serch hynny, ni ddaw'r oblygiadau ariannol i'r sector yn amlwg tan i drafodaethau ddechrau rhwng y Deyrnas Gyfunol a'r UE.

55. ENNYD IECHYD A DIOGELWCH

NODWYD

Bod y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd wedi cyfarfod ynghynt y diwrnod hwnnw. Yn ystod y cyfarfod, diolchodd yr aelodau i Phil Maddison am ei gyfraniad i'r Brifysgol wrth iddo baratoi i adael ei swydd yn Gyfarwyddwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd ar ddiwedd mis Chwefror 2017. Penodwyd Andy Wainwright yn Rheolwr Interim ar y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd am gyfnod o dri mis tra'r ystyrir ymhle yn y sefydliad y lleolir yr Adran.

56. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR DROS DRO

NODWYD

Hwn fyddai cyfarfod olaf y corff llywodraethu i'r Athro John Grattan fel Is-Ganghellor Dros Dro. Ers 01 Chwefror 2016, roedd wedi ceisio ailgyfeirio gweithgareddau'r Brifysgol er mwyn canolbwyntio ar y blaenoriaethau strategol Denu Myfyrwyr, Enw Da, a Diogelu'r Dyfodol. Roedd y blaenoriaethau hyn wedi cyfrannu at y Cynllun Trawsffurfio a ddatblygwyd yr hydref diwethaf. Er bod cynnydd yn cael ei wneud o ran cynlluniau Denu Myfyrwyr a chynnal enw da, roedd angen rhagor o waith i Ddiogelu'r Dyfodol.

57. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYNLLUNIO

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (COU1617-061).

NODWYD

1. Roedd darlun cliriach bellach ar gael ynglŷn â mynediad ym mis Medi 2017 gan mai 15 Ionawr 2017 oedd dyddiad cau UCAS i dderbyn ceisiadau. Er ei bod yn ymddangos i Brifysgol Aberystwyth (PA) berfformio'n well na'r cyfartaledd yn y sector, nid yw nifer yr ymgeiswyr mor uchel â'r hyn sydd ei angen i gyflawni rhagolygon Mehefin 2016.

2. Mae sylw'r Brifysgol yn awr yn canolbwyntio ar drosglwyddo'r ceisiadau'n dderbyniadau. Roedd y gweithgareddau ar y gweill yn cynnwys diwrnod ymweld i'w gynnal drannoeth y cyfarfod, ac roedd mwy wedi cofrestru ar ei gyfer nac ar gyfer unrhyw achlysur blaenorol o'r fath. Hefyd, cafodd grŵp ei sefydlu i weithio ar drosglwyddo ceisiadau o'r UE yn dderbyniadau.

3. Er na fyddai'r Brifysgol yn cyflawni Rhan Dau'r Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (FfRhY), cafodd gweithgor ei sefydlu i ystyried a ddylai'r sefydliad gymryd rhan yn Rhan 3 y FfRhY y flwyddyn nesaf. Byddai argymhelliad ar y mater yn dod gerbron y Cyngor ymhen amser (GWEITHREDU: Cyfarwyddwr Cynllunio).

58. ADRODDIAD Y CYFARWYDDWR CYLLID

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cyllid (COU1617-062).

NODWYD

1. Roedd yr Adran Gyllid wrthi'n gorffen paratoi canlyniadau'r ail chwarter. Roedd y data yn yr adroddiad felly'n defnyddio canlyniadau'r chwarter cyntaf a'r wybodaeth a gafwyd trwy'r prosesau misol a wnaed ddiwedd mis Ionawr 2017. Serch hynny, ystyriwyd bod yr alldro am y flwyddyn yn gadarn.

2. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i ddatblygu fframwaith cyllideb 2017-18. Yng ngoleuni lefelau ceisiadau ar ddyddiad cau UCAS, bydd y gyllideb sydd ar ddod yn cymryd agwedd bwyllog ac yn cael ei seilio ar ddim twf, yn hytrach na'r cynnydd yn nifer y myfyrwyr a broffwydwyd yn flaenorol.

59. RHYNGWEITHIO Â'R CYNGOR CYLLIDO A'R CYNLLUN TRAWSFFURFIO

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol, yn ymgorffori llythyr cyfrinachol oddi wrth Brif Weithredwr CCAUC, dyddiedig 02 Chwefror 2017, yn dilyn Adolygiad Risg Sefydliadol interim, a dogfennau cefndirol gan Weithrediath y Brifysgol (COU16-17-063).

NODWYD

Ystyriwyd yr adroddiad gan yr aelodau. Trafodwyd yr amrywiol faterion yn deillio ohono a rhoddwyd cyfarwyddyd i Weithrediaeth y Brifysgol, fel y nodwyd yn yr atodiad cyfrinachol.

60. SAFONAU IAITH GYMRAEG

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol); a Phennaeth Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg (COU1617-064).

NODWYD

1. Yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011, bydd Cynllun Iaith cyfredol PA yn cael ei ddisodli gan Safonau'r Gymraeg. Cafodd Rheoliadau Safonau'r Gymraeg sy'n gymwys i Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru eu cymeradwyo gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 31 Ionawr 2017.

2. Roedd y Brifysgol yn aros am ddrafft yr Hysbysiad Cydymffurfio oddi wrth Gomisiynydd y Gymraeg, a fydd yn amlinellu'r Safonau y disgwylir i'r sefydliad eu cyrraedd. Ar ôl derbyn drafft yr Hysbysiad Cydymffurfio, byddai Gweithrediaeth y Brifysgol yn ystyried ei oblygiadau i'r sefydliad, ac os oes angen bydd cyfle gan y Brifysgol i ddadlau yn erbyn unrhyw faich anghymesur cyn i'r Hysbysiad Cydymffurfio terfynol gael ei gyflwyno. Bydd cydymffurfio â'r Safonau a osodir wedyn yn amod statudol.

3. Bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno yn gyntaf i Bwyllgor Strategaeth y Gymraeg ar ôl derbyn yr Hysbysiad Drafft (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol)). Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiad o unrhyw oblygiadau i'r Brifysgol o ran adnoddau er mwyn cyrraedd Safonau'r Gymraeg.

61. MAINT A CHYFANSODDIAD Y CYNGOR

NODWYD

1. Yn ei gyfarfod ar 16 Chwefror 2017, roedd y Pwyllgor Siarter unwaith eto wedi ystyried cyfleoedd i leihau maint y corff llywodraethu ac, wrth wneud hynny, adolygu cyfansoddiad y Cyngor i roi sylw i gyfran yr Aelodau Annibynnol o'i gymharu ag Aelodau o blith y Staff a Myfyrwyr.

2. Yn dilyn y trafodaethau hyn, roedd y Pwyllgor Siarter yn bwriadu dwyn argymhelliad ffurfiol gerbron i leihau maint y Cyngor o 24 i 16 o aelodau. Prif oblygiadau'r diwygiadau a gynigir yw na fydd y Canghellor, y Dirprwy Gangellorion na'r Dirprwy Is-Gangellorion yn gwasanaethu ar y Cyngor yn rhinwedd eu swyddi. Bydd lleihau nifer aelodau'r Senedd ar y Cyngor o dri i un hefyd yn cael ei argymell.

3. Byddai adroddiad yn amlinellu'r cynigion llawn yn cael ei gyflwyno i'r Senedd ar 23 Mawrth 2017, ac yn dilyn hynny ei gyflwyno i'r Cyngor i'w gymeradwyo'n derfynol ar 07 Ebrill 2017. Serch hynny, byddai unrhyw newidiadau i'r aelodaeth yn cael eu cyflwyno'n raddol wrth i'r cyfle godi.

4. Holodd rhai aelodau a oedd yn briodol i symud y mater hwn yn ei flaen cyn i'r Is-Ganghellor newydd ddechrau yn y swydd.

PENDERFYNWYD

5. Gwahodd y Pwyllgor Siarter i ailystyried y mater pan fydd yr Is-Ganghellor newydd wedi dechrau yn y swydd a dwyn unrhyw argymhellion dilynol gerbron ymhen amser (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

62. SWYDDOGION Y BRIFYSGOL

1. Penodi Canghellor a Chadeirydd y Cyngor

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1617-066).

NODWYD

1. Bydd tymor Syr Emyr Jones Parry yn Ganghellor a Chadeirydd y Cyngor yn dod i ben ar 31 Rhagfyr 2017, a bryd hynny bydd Syr Emyr wedi gwasanaethu am uchafswm y cyfnod a ganiateir, sef deng mlynedd. Roedd sefyllfa PA, lle mae'r un unigolyn yn cyflawni swyddogaeth y Canghellor a Chadeirydd y corff llywodraethu, bellach yn eithriad yn y sector. Ond, oherwydd y diwygiadau a wnaed i Siarter Atodol y Brifysgol yn 2014 mae'n bosibl yn awr i wahanu'r ddwy swyddogaeth.

2. Ystyriodd yr aelodau y nodweddion personol angenrheidiol ar gyfer ymgymryd â swyddogaethau Canghellor a Chadeirydd y Cyngor. Mae'r gyntaf o'r swyddogaethau'n un anrhydeddus ac yn un sy'n gofyn am unigolyn amlwg sy'n awyddus i gyfrannu i'r Brifysgol mewn ffordd lysgenhadol. Mae ar yr ail swyddogaeth angen unigolyn sy'n gallu dangos arweiniad, ac sydd ag amser ac arbenigedd i fod yn rhan o'r gwaith o lywodraethu'r sefydliad yn effeithlon.

PENDERFYNWYD

3. Gwahanu swyddogaethau'r Canghellor a Chadeirydd y Cyngor o 01 Ionawr 2018, ac i symud ymlaen â'r prosesau recriwtio ar y sail honno (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

4. Dechrau'r drefn o benodi Canghellor newydd y Brifysgol cyn gynted â phosibl yn unol â gofynion Ordinhad 2, a gwahodd enwebiadau gan staff, myfyrwyr ac alumni (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

5. Cyflawni'r drefn o benodi Cadeirydd y Cyngor yn unol â'r amserlen yn yr adroddiad, fel y gellir cyflwyno argymhelliad i'r corff llywodraethu ar 23 Mehefin 2017. Er y byddai'r swydd wag yn cael ei hysbysebu'n allanol, fe allai'r Aelodau Annibynnol sy'n gwasanaethu ar y Cyngor wneud cais amdani (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

2. Penodi Dirprwy-Ganghellor/Gangellorion a Thrysorydd

NODWYD

1. Byddai'r Dirprwy Gangellorion Dr Glyn Rowlands a Gwerfyl Pierce Jones, a'r Trysorydd, Dr Timothy Brain, yn dod i ddiwedd eu cyfnod cyntaf o bum mlynedd ar 31 Rhagfyr 2017. Ond, er mwyn i aelodau eraill y Cyngor a fyddai'n dymuno gwasanaethu yn y swyddi hyn fynegi diddordeb i gael eu penodi, roedd y Cyngor

ar 29 Tachwedd 2016 wedi penderfynu ymestyn cyfnodau cyfredol y Swyddogion Prifysgol dan sylw tan 28 Chwefror 2017.

2. Roedd y Dirprwy-Gangellorion hyn a'r Trysorydd ar dir i'w hailethol. Roedd y Dirprwy-Ganghellor Gwerfyl Pierce Jones a'r Trysorydd ill dau wedi dweud eu bod yn awyddus i barhau yn y swyddi, ond roedd y Dirprwy-Ganghellor Dr Glyn Rowlands wedi nodi ei fod yn dymuno lleihau ei ymrwymiadau a chanolbwyntio'n bennaf ar ei gyfraniad yn un o Gyfarwyddwyr cwmni AIEC Cyf. Prifysgol Aberystwyth.

3. Yn ei gyfarfod ynghynt yn y dydd, ystyriodd y Pwyllgor Enwebiadau ailbenodiad Swyddogion y Brifysgol a phenderfynu argymell i'r Cyngor y dylid ailbenodi'r Dirprwy-Ganghellor Gwerfyl Pierce Jones a'r Trysorydd. Hefyd, argymhellodd y Pwyllgor Enwebiadau ymestyn cyfnod y Dirprwy-Ganghellor Dr Glyn Rowlands tan 31 Rhagfyr 2017, ar y ddealltwriaeth na fyddai'r Dr Rowlands yn gwasanaethu ar y corff llywodraethu yn rhinwedd ei swydd.

4. Mynegodd yr aelodau eu siom o ddeall, yn wyneb argymhelliad y Pwyllgor Enwebiadau, mai hwn fyddai'r cyfarfod olaf o'r corff llywodraethu wedi bod i'r Dirprwy-Ganghellor Dr Glyn Rowlands.

PENDERFYNWYD

5. Ailbenodi Gwerfyl Pierce Jones yn Ddirprwy-Ganghellor am ail dymor, sef yr olaf, i ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2019, yn unol â gweddill cyfnod Dirprwy-Ganghellor a ganiateir yn yr Ordinhadau cyfredol (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

6. Ailbenodi Dr Timothy Brain yn Drysorydd am ail dymor, sef yr olaf, i ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2021, yn unol â gweddill y cyfnod fel Dirprwy-Ganghellor a ganiateir gan yr Ordinhadau cyfredol (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

7. Ymestyn cyfnod y Dirprwy-Ganghellor Dr Glyn Rowlands tan 31 Rhagfyr 2017, ar y sail a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Enwebiadau (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

63. POLISI FFIOEDD DYSGU

DERBYNIWYD

Drafft o'r polisi gan y Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Eiddig Morgan (COU1617-067).

NODWYD

1. Y Polisi Ffioedd Dysgu arfaethedig fyddai'n tywys cytundeb ar ddiwygiadau i ffioedd dysgu yn y dyfodol, a'r corff a fyddai'n gyfrifol am gymeradwyo'r diwygiadau hynny.

2. Ystyriwyd y Polisi drafft gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ar 03 Chwefror 2017, lle'r argymhellodd yr aelodau a dylid ei gymeradwyo gan y Cyngor.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo drafft y Polisi Ffioedd Dysgu (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr Cyllid Cynorthwyol Eiddig Morgan).

64. POLISI BUDDSODDI

DERBYNIWYD

Drafft o'r polisi gan y Pwyllgor Buddsoddiadau (COU1617-068).

NODWYD

1. Roedd Pwyllgor Buddsoddiadau PA wedi adolygu'r Polisi Buddsoddi cyfredol yn rhan o'i amserlen waith blynyddol. Roedd nifer o fân newidiadau'n cael eu cynnig.

2. Cafodd y newidiadau arfaethedig eu hystyried gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ar 03 Chwefror 2017, lle'r argymhellodd yr aelodau a dylai'r Cyngor eu cymeradwyo.

PENDERFYNWYD

3. Cymeradwyo'r newidiadau a gynigiwyd i'r Polisi Buddsoddiadau (**GWEITHREDU:** Cyfrifydd Rheoli, Nansi George).

65. IECHYD A DIOGELWCH TUEDDIADAU DIGWYDDIADAU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cydlynydd Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU1617-069).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn cynnwys y tueddiadau sy'n dod i'r amlwg a'r datblygiadau sy'n deillio o ddigwyddiadau a gofnodwyd ac a dderbyniwyd gan yr Adran Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yn y cyfnod rhwng Ionawr 2016 ac Ionawr 2017.

2. Bod yr adroddiad wedi'i ystyried ynghynt y diwrnod hwnnw yng nghyfarfod y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd.

PENDERFYNWYD

3. Y dylai diweddariadau yn y dyfodol ynghylch tueddiadau digwyddiadau roi crynodeb o'r prif ystyriaethau ar y flaenddalen (**GWEITHREDU:** Cydlynydd Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd).

66. ADRODDIAD LLYWYDD UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lywydd Undeb y Myfyrwyr (COU1617-070).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf y datblygiadau yn Undeb y Myfyrwyr ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol, gan gynnwys diwygiadau y bwriedir eu gwneud i deitlau a chyfrifoldebau'r swyddogion sabothol.

67. ADRODDIAD BLYNYDDOL AR Y GYNGHRAIR STRATEGOL Â PHRIFYSGOL BANGOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ddirprwy Bennaeth Swyddfa'r Gynghrair Strategol (COU1617-071).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn nodi cyflawniadau prifysgolion Aberystwyth a Bangor o dan y Gynghrair Strategol yn ystod blwyddyn academaidd 2015-16.

2. Cafodd yr adroddiad ei ystyried gan y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth ar 03 Chwefror 2017, a gwahoddwyd Gweithrediaeth y Brifysgol i adolygu strwythurau'r Gynghrair

Strategol yng nghyd-destun datblygiadau yn y ddwy brifysgol ers 2011, er mwyn sicrhau bod y strwythurau'n cyflawni gofynion y ddau sefydliad.

68. CRYNODEB O'R GOFRESTR RISG CORFFORAETHOL

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Cynllunio (COU1617-072).

NODWYD

Rhoddai'r adroddiad grynodeb o'r risgiau arwyddocaol o'r Gofrestr Risg Corfforaethol.

69. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (COU1617-073).

NODWYD

1. Manylai'r adroddiad ar yr adegau ers cyfarfod diwethaf y Cyngor lle'r oedd yr aelodau wedi cymeradwyo materion trwy ohebiaeth.

2. Y materion a gymeradwywyd gan aelodau'r Cyngor trwy ohebiaeth oedd:

    1. penodi'r Athro Elizabeth Treasure yn Is-Ganghellor;

    2. Adroddiad Blynyddol y Brifysgol ar y Ddyletswydd Rhwystro am 2015-16, i'w gyflwyno i'r Cyngor Cyllido; a

    3. Dogfen Cynllunio Strategol ac Ymgysylltu'r Brifysgol, i'w chyflwyno i'r Cyngor Cyllido.

70. ADRODDIADAU O BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys yr adroddiadau canlynol (COU1617-074):

1. Y Pwyllgor Cyllid a Strategaeth (03 Chwefror 2016);

2. Y Pwyllgor Taliadau (17 Hydref 2016); a

3. Grŵp Gweithredol y Brifysgol) - Cyfarfodydd Strategol (22 Tachwedd a 13 Rhagfyr 2016).

NODWYD

4. Yr adroddiadau a dderbyniwyd oddi wrth y pwyllgorau.

71. UNRHYW FATER ARALL

1. Strategaeth Farchnata

NODWYD

1. Roedd y Brifysgol wedi penodi Ymgynghorydd Marchnata interim i weithio gyda'r sefydliad am chwech i naw mis er mwyn cynorthwyo i arwain datblygiad strategaeth lleoli newydd i'r Brifysgol a'i hathrofeydd.

2. Roedd asiantaeth farchnata brofiadol hefyd wedi'i chyflogi, a fydd yn cyflawni ymgynghoriad cynhwysfawr gyda staff, myfyrwyr, a rhanddeiliaid eraill. Byddai aelodau'r Cyngor yn cael eu gwahodd i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad (**GWEITHREDU:** Y Cyfarwyddwr Cyllid).

3. Byddai cyflwyniad ynglŷn â chanlyniad yr ymgynghoriad yn cael ei rannu â'r Cyngor yn ei gyfarfod ar 23 Mehefin 2017 (**GWEITHREDU:** Y Cyfarwyddwr Cyllid).